

CANLLAWIAU *ar* *eich* TROSGLWYDDO

W

Mae'r trosglwyddo yn garreg filltir arwyddocaol ar eich taith MPhil/PhD

Mae'r trosglwyddo, i bob pwrpas, yn bwynt asesu. Rhaid ystyried ceisiadau trosglwyddo o ar y pwynt Monitro Cynnydd Blyneddol 12 mis ar gyfer myfyrwyr llawn amser neu ar y pwynt Monitro Cynnydd Blyneddol 24 mis ar gyfer myfyrwyr rhan-amser.



Mae tri chanlyniad posib ar gyfer eich trosglwyddo.

1. Gallwch trosglwyddo i PhD.
2. Gallwch aros ar MPhil.
3. Nid ydych yn barod i trosglwyddo ar hyn o bryd, ond mae gwahoddiad i chi ailgyflwyno ar gyfer trosglwyddo unwaith rydych wedi cwblhau gwaith/camau gweithredu mae'r panel wedi'u darparu i chi. Os mai'r canlyniad yw ymgymryd ag trosglwyddo arall, yna bydd y panel fel arfer yr un fath er mwyn gwneud yn siŵr bod cysondeb.

Beth i'w Ddisgwyl


Ymgymryd â pharatoadau trosglwyddo ynghyd â'ch tîm goruchwylio. Bydd eich panel trosglwyddo fel arfer yn ddau aelod o staff Prifysgol Wreccsam sy'n oruchwylwyr ymchwil ôl-raddedig achrededig. Bydd y Deon Cyswllt ar gyfer Ymchwil, neu'r enwebai, yn un o'r aseswyr fel arfer, a bydd yn gweithredu fel Cadeirydd y panel.

- Cofiwch na fydd eich panel trosglwyddo fel arfer yn gwybod dim amdano chi na'ch prosiect ymchwil.
- Y ddogfennaeth y byddwch yn ei rhannu gyda'r panel cyn eich trosglwyddo (adroddiad fod rhwng 3,000 - 6,000 o eiriau o hyd +RDC4 Ffurflen Drosoglwyddo) fydd cyfle cyntaf y panel i ffurfio barn am ansawdd eich gwaith a'r cynnydd rydych wedi'i wneud.

Cyn eich Trosglwyddo

Darparwch yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i ddangos i'r panel eich bod ar bwynt yn eich astudiaethau lle gallwch gael eich trosglwyddo i PhD.

- Mae dangos cyfraniad gwreiddiol i wybodaeth yn faen prawf allweddol ar gyfer PhD llwyddiannus, dywedwch wrth y panel beth yw/fydd eich un chi.
- Darparwch strwythur penodau, os yn bosibl,
- lle rydych yn cofnodi faint o eiriau sydd wedi'u cwblhau a/neu amserlen sy'n dangos pryd fydd y gwaith wedi'i gwblhau.
- Dylech gynnwys unrhyw ddrafft o benodau i ddangos ansawdd eich gwaith.
- Paratowch gyflwyniad 10 munud i'r panel.



Prifysgol Wreccsam
Wrexham University

CANLLAWIAU *ar* *eich* TROSGLWYDDO

W

Awgrymiadau Paratoi



Gwnewch bethau'n hawdd i'r panel, dangoswch eich profiad:

- A oes gennych unrhyw gyhoeddiadau? A ydych wedi cyflwyno mewn cynhadledd?
- A ydych wedi derbyn gwobr? A ydych wedi llwyddo i gael Tystysgrif Ymchwilydd Hyderus? A ydych wedi bod yn rhagweithiol yn eich cyfraniad i'r hyfforddiant Datblygu Ymchwilwyr?

Dywedwch wrth y panel yn eich dogfennaeth.



Cofiwch gadw copi o bopeth rydych wedi'u cyflwyno i'r panel fel y gallwch fynd drwy hwn cyn eich cyfarfod trosglwyddo .

Hefyd, caiff un o'ch tîm goruchwyllo ddod i mewn i'ch cyfarfod trosglwyddo, a chytundeb Cadeirydd y Panel. Eich penderfyniad chi yw hwn. Nid ydynt yn cael dweud unrhyw beth, ond efallai y byddwch yn ei gweld yn ddefnyddiol cael myfyrion â nhw ar ôl cyfarfod. Bydd angen i chi wneud yn siŵr eich bod yn dweud wrth yr aelod o'r tîm goruchwyllo eich bod yn dymuno eu cael yn bresennol pan mae'r cyfarfod yn cael ei drefnu.

Yn Ystod y Cyfarfod Trosglwyddo


- Cewch ofyn i'r panel egluro unrhyw gwestiynau fel bo'r angen.
- Cewch wirio gyda'r panel a ydych wedi ateb y cwestiwn. Cewch ofyn am seibiant.
- Cewch fynd â nodiadau gyda chi.

Cewch ysgrifennu pethau yn ystod yr trosglwyddo.



Cofiwch: os ydych angen unrhyw addasiadau rhesymol ar gyfer eich cyfarfod trosglwyddo , cofiwch mai eich cyfrifoldeb chi yw gwneud yn siŵr bod y panel yn cael eu hysbysu. Cewch wneud hyn drwy eich tîm goruchwyllo neu drwy hysbysu gweinyddiaeth myfyrwyr. Cewch wneud cais hefyd i gael cyfarfod ag aelod o'r panel i drafod unrhyw addasiadau sydd eu hangen. Cofiwch mai eich trosglwyddo 'chi' yw hwn a'i fod am eich ymchwil 'chi'. Felly, chi fydd yr arbenigwr yn yr ystafell.

CANLLAWIAU *ar* *eich* TROSGLWYDDO



Pethau i'w Cofio

Os ydych yn cyflwyno, cadwch o fewn y 10 munud. Efallai y bydd y panel yn gofyn i chi roi'r gorau i gyflwyno os yw'n rhy hir. Byddwch yn barod i ateb cwestiynau am eich cyflwyniad.

Mae'r panel yn chwilio am dri phrif beth:

1. Beth yw eich cyfraniad gwreiddiol i wybodaeth?
2. A ydych yn ysgrifennu ar y lefel gywir?
3. A yw eich amserlen cwblhau yn realistig?

Bydd y panel yn gofyn cwestiynau i chi am eich ymchwil a'r cynlluniau, chi yw'r arbenigwr yn y maes. Cewch fynd â'ch argymhelliad gyda chi a chyfeirio ato yn ystod y cyfarfod os bydd hyn o gymorth i chi.

Cwestiynau

Os nad ydych wedi deall cwestiwn mae aelod o'r panel yn ei ofyn i chi, peidiwch â phoeni, cewch ofyn iddynt ei ailadrodd a/neu aralleirio'r cwestiwn i chi.

Cewch ysgrifennu'r cwestiynau os yw hynny o gymorth.

Os nad ydych yn siŵr eich bod wedi ateb y cwestiwn, gofynnwch i'r panel 'A yw hynny'n ateb eich cwestiwn?'



Ar ôl y Cyfarfod Trosglwyddo

Efallai y bydd y panel yn dweud wrthyfch ar y diwrnod beth yw eu hargymhelliad, neu efallai ddim.

Peidiwch â gorfeddwl ynghylch hyn. Fel arfer, bydd y panel yn dymuno ymgynghori ar ôl i chi adael yr ystafell (gyda'ch goruchwyliwr). Bydd y panel yn darparu adroddiad ysgrifenedig gyda'r canlyniad a fydd yn cael ei rhannu â chi a'ch tîm goruchwylio, cyn pen 10 diwrnod gwaith fel arfer.

Y prif oruchwyliwr sy'n gyfrifol am anfon y ffurflen RDC4 wedi'i chwblhau, y dogfennau ategol a chanlyniad y panel at y tîm gweinyddol ôl-raddedig.

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch y modd y cynhaliwyd eich panel trosglwyddo, yna mae'r gweithdrefnau cwynion myfyrwyr yn berthnasol. Ystyrir y canlyniad yn farn academiaidd felly nid oes modd apelio'r canlyniad, ond mae modd apelio'r broses.